# Etholiad Cyffredinol y DU 2024

## Sut y gall Llywodraeth y DU helpu i ddatrys yr argyfwng tai

**Mehefin 2024**

## Diben

Yn y cyfnod hyd at ddiwrnod yr etholiad (4 Gorffennaf 2024), bydd CHC yn codi proffil y rôl Llywodraeth y DU ei chyflawni yn sut mae pobl yn byw'n dda yn eu cartrefi yng Nghymru.

Mae tai yn fater a gafodd ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, caiff rhai o'r polisïau sy'n effeithio ar incymau a chostau aelwydydd, tebyg i lesiant ac ynni, eu rheoli gan Lywodraeth y DU. Rydym yn wynebu argyfwng tai mewn sawl maes ar hyn o bryd, a waethygwyd gan gostau byw uchel a chyfyngiadau ar incwm aelwydydd incwm isel.

Mae'r papur gwybodaeth hwn yn rhoi sylw i feysydd allweddol lle caiff heriau a chyfleoedd i Lywodraeth y DU weithredu polisïau a gaiff effaith gadarnhaol ar y farchnad tai a bywydau tenantiaid tai cymdeithasol ar draws Cymru. Soniwn hefyd sut y byddwn yn darparu adnoddau a chefnogaeth i'ch hysbysu am y datblygiadau diweddaraf yn yr etholiad a'ch paratoi i ddatblygu perthynas gydag Aelodau Seneddol newydd.

## Incwm annigonol i ddod â deupen llinyn ynghyd

**Lwfans Tai Lleol (LHA)**
Cafodd y Lwfans Tai Lleol ei rewi rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ebrill 2023, gan wneud y sector rhentu preifat yn gynyddol anfforddiadwy. Ym mis Chwefror 2024 nid oedd yr un annedd ar gael ar gyfraddau'r LHA mewn bron 75% o awdurdodau lleol ar draws Cymru[1]. Mae cadw cyfraddau yn eu hunfan wedi gorfodi llawer o deuluoedd ac unigolion i adael y sector rhentu preifat ac i mewn i wasanaethau digartrefedd, ar adeg pan fo darpariaethau

[1] Gweler@ Ymchwil Sefydliad Bevan https://www.bevanfoundation.org/resources/housing-winter-2023/

eisoes dan bwysau yn dilyn pandemig COVID-19, gan achosi galw enfawr am dai cymdeithasol

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad am gynnydd i gyfraddau LHA, a gafodd eu codi i'r 30fed canradd fel ym mis Ebrill 2024. Fodd bynnag ni fydd y cymorth hwn yn parhau'n hir oherwydd cynlluniau cyfredol i rewi cyfraddau eto o 2025.

**Credyd Cynhwysol**

Mae'r argyfwng costau byw wedi dangos eto pa mor annigonol yw'r Credyd Cynhwysol wrth gefnogi pobl i dalu am hanfodion sylfaenol. Fel canlyniad, mae llawer o denantiaid tai cymdeithasol yn gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng talu am rent, tanwydd a bwyd ac yn mynd i ddyled.

Mae cymdeithasau tai (74%) yn gweld cynnydd yn nifer y tenantiaid sy'n gofyn am gymorth ariannol a chyllid argyfwng i ddod â deupen llinyn ynghyd[2]. Mae polisïau'r Credyd Cynhwysol megis aros pump wythnos i dalu rhent, y terfyn ar ddau blentyn a'r cymhorthdal ystafell sbâr yn gwaethygu caledi. Yn ychwanegol, mae didyniadau a chosbau anghymesur sy'n rhan o'r system yn cyfrannu at greu cylch o gyllidebau negyddol. Caiff budd-daliadau yng Nghymru, yn cynnwys taliadau tai dewisol, eu defnyddio yn gynyddol fel cyllid bwlch ar gyfer polisïau llesiant y DU, tebyg i'r cap ar fudd-daliadau a dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Mae darpariaethau lleol hefyd yn gorfod addasu i ddod yn rhwyd ddiogelwch ar gyfer unigolion sydd wedi disgyn drwy graciau'r system llesiant ganolog.

Mae cymdeithasau tai yn dyrannu adnoddau sylweddol i helpu eu tenantiaid ymdopi â'r argyfwng costau byw. Maent yn darparu cymorth ariannol holistig ac wedi ymrwymo na chaiff neb eu troi allan o'u cartrefi oherwydd caledi ariannol. Fodd bynnag, maent yn cyrraedd terfynau'r cymorth y gallant ei roi. Mae angen gwelliannau sylfaenol i'n system nawdd cymdeithasol i helpu atal twf tlodi.

## Aelwydydd yn ei chael yn anodd i fforddio gwresogi eu cartrefi

**Cymorth gyda biliau ynni ar gyfer aelwydydd incwm isel**

Mae'r argyfwng costau byw a'r marchnadoedd ynni anwadal wedi cael effaith fawr ar allu pobl i ddod â deupen llinyn ynghyd. Mae biliau ynni yn dal i fod yn agos at ddwywaith yr hyn oeddent cyn yr argyfwng, ac mae dyledion ynni wedi cynyddu wrth i bobl ei chael yn anodd talu. Mae tenantiaid tai cymdeithasol yn dweud fod costau ynni uchel yn un o'r prif resymau pam eu bod yn profi anawsterau ariannol. Mae llawer o denantiaid yn gorfod

[2] Gweler: adroddiad Methu Dod â Deupen Llinyn Ynghyd CHC: https://chcymru.org.uk/cms-assets/documentsCost-of-Living-Report-2023-%E2%80%94-ENG-1.pdf

gwneud y penderfyniad anodd i gyfyngu gwresogi eu cartrefi, a all waethygu problemau fel lleithder a llwydni. Mae cartrefi oer hefyd yn cael effeithiau eang ar iechyd, yn cynnwys iechyd corfforol a lles meddwl.

**Cartrefi effeithiol o ran ynni**
Mae cymdeithasau tai yn uchelgeisiol ac yn benderfynol i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd, ond ni allant wneud hyn ar eu pen eu hunain. Bydd buddsoddiad cymdeithasau tai mewn gwelliannau ynni yn allweddol i sbarduno'r cadwyn cyflenwi cenedlaethol a galluogi sicrhau gostwng carbon ar draws pob aelwyd yn y Deyrnas Unedig. Bydd angen cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio ein stoc tai os ydym i gyrraedd targedau sero-net.

Caiff cost datgarboneiddio tai cymdeithasol ei wrthbwyso gan y manteision i denantiaid a'r gymuned. Bydd gwella effeithiolrwydd ynni ein cartrefi yn gostwng allyriadau carbon a hefyd yn gwneud biliau tanwydd yn fwy fforddiadwy a chreu sgiliau a swyddi newydd, fydd yn hwb i'r economi lleol.

## Beth fedrir ei wneud?

Rydym angen dull gweithredu mwy cydlynol rhwng polisi Llywodraeth y DU a pholisi Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw pobl yn syrthio rhwng y bylchau.

**Rydym angen:**

**Ymagwedd holistig at gymorth llesiant sy'n atal digartrefedd ac yn cefnogi mynediad i'r farchnad rhent.**

- Mae angen adolygu'r Lwfans Tai Lleol i sicrhau fod rhenti a pholisïau'n cefnogi mynediad i'r sector rhentu preifat ar gyfer aelwydydd incwm isel. Galwn ar Lywodraeth y DU i ddod â'r rhewi ar gyfraddau'r Lwfans i ben yn barhaol fel eu bod ar o leiaf 30fed canradd rhenti lleol.

**Diwygio Credyd Cynhwysol i sicrhau y gall hawlwyr dalu am hanfodion sylfaenol o leiaf.**

- Caiff Cartrefi Cymunedol Cymru ei enwi fel cefnogwr yr ymgyrch Gwarant Hanfodion a lansiwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell a Sefydliad Joseph Rowntree.

**Gwelliannau i'r system Credyd Cynhwysol ar gyfer hawlwyr a hefyd gymdeithasau tai.**

- Byddai adolygu'r cyfnod aros pump wythnos, didyniadau tecach a dileu cosbau tebyg i'r terfyn dau blentyn a'r cymhorthdal; ystafell sbâr yn atal mwy o aelwydydd

rhag syrthio i gyllidebau negyddol a galluogi hawlwyr i ddefnyddio eu hawliau llawn. Ynghyd â'n chwaer ffederasiynau, mae Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd wedi galw am well trefniadau rhannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a rhanddeiliaid allweddol fel y gellir targedu cymorth yn fwy effeithiol at denantiaid bregus i sicrhau nad oes neb yn syrthio drwy'r rhwyd ddiogelwch wrth i'r trosglwyddo i'r rhaglen Credyd Cynhwysol barhau.

**System ynni sy'n diogelu aelwydydd incwm isel, gan eu galluogi i fedru fforddio eu cartrefi yn gyson.**

- Rydym wedi ymgyrchu gyda phartneriaid i alw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer ynni. Er yr ymrwymodd Llywodraeth y DU i ymgynghori ar y mater hwn yn Natganiad Hydref 2022, rydym yn dal i aros i weld cynnydd. Mae tenantiaid tai cymdeithasol hefyd angen mwy o gymorth i ad-dalu dyledion ynni. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cefnogi'r cynnig Help i Ad-dalu dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Cyngor Arian a chynghrair o elusennau yn cynnwys National Energy Action (NEA) Cymru, gan alw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno cynllun dros dro ar gyfer pobl sy'n cael trafferthion gyda dyledion ynni.

**Ymrwymiad gan y llywodraeth i gefnogi'r sector i gyflawni ei nodau sero net.**

- Byddai hyn yn cynnwys ymestyn datblygu sgiliau gwyrdd a defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflymu buddsoddiad mewn prosiectau datgarboneiddio.

Rydym eisoes yn gweithio gyda'n chwaer ffederasiynau tai a Homes for All Cymru i sefydlu llais ar y cyd i gynyddu'r galwadau hyn.

Rydym hefyd yn datblygu Adroddiad Canfyddiadau Cynnar ar gyfer canlyniadau ein harolwg Costau Byw diweddar i ddangos yr angen am newid ac i geisio sylw yn y cyfryngau.

## Sut y byddwn yn eich cefnogi

Yn yr wythnosau nesaf gallwch ddisgwyl gweld lansiad yr adnoddau dilynol i aelodau:

- Bwletinau e-bost rheolaidd yn cynnwys diweddariadau ar ddatblygiadau ym mholisïau tai maniffestos y pleidiau a gwybodaeth ar Aelodau Seneddol/Darpar Ymgeiswyr Seneddol.
- Papur gwybodaeth cyngor da ar gyfer cysylltu gydag Aelodau Seneddol newydd.
- Templed o lythyr at Aelodau Seneddol yn dilyn yr etholiad.
- Sylw byw i'r etholiad yn ein Un Gynhadledd Tai Fawr.
- Papur gwybodaeth ysgrifenedig yn dilyn yr etholiad.

- Sesiwn dadansoddi ar-lein yn dilyn yr etholiad i esbonio'r hyn y gallai'r canlyniad ei olygu i Gymru.

Bydd yr Hyb Tai yma yn gweithredu fel eich man cyfeirio allweddol ac yn cynnwys yr holl adnoddau y byddwn yn eu rhannu yn ystod y cyfnod hwn.

## I gael mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth neu i drafod cynnwys y papur gwybodaeth hwn, cysylltwch â or Bethan-Proctor@chcymru.org.uk